# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 12/09/2023 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin Roberts (Cad) | Gito Williams | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gwynfor Jones |
| Dafydd Dobson | Rhian Sanson | Rhys Llewelyn | Carys Roberts | Janice Evans |
| Lleucu Jones | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Mared Llywelyn Williams, Alaw Llewelyn Roberts, Gareth Jones a Caren Jones

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 11/07/2023
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Holiadur Cymunedau**
      Mae'r aelodau am lenwi'r holiadur yma i fewn yn unigol os ydynt yn dymuno gwneud.
   2. **Erthygl 4 –** Arfon Hughes
      Codwyd nifer o bwyntiau gan un o'r aelodau ynglŷn â Erthygl 4 a pwysleisiodd ei bod yn bwysig fod pawb yn rhoi eu barn arno ac hefyd bod Cyngor Gwynedd yn gwrando ac yn cymeryd bob dim i ystyriaeth cyn dod i benderfyniad. Bu trafodaeth byr ar y mater gyda rhai o'r aelodau yn rhoi eu ymateb i'r pwyntiau a godwyd.

5. **Cynllun Peilot Dwyfor –** Catrin Huws, Catrin Roberts a Robin Evans
   Cafwyd diweddiariad gan Catrin Huws Grŵp Cynefin, Catrin Roberts Rheolwr Tai Teg a Robin Evans Rheolwr Prosiect y Cynllun Prynu Cartref – Cyngor Gwynedd ar Cynllun Peilot Dwyfor a Cynllun Prynu Cartref ac roedd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynnau iddynt yn ystod y sgwrs. Derbyniodd y swyddogion awgrymiadau gai rai o'r aelodau a gofynodd y swyddogion os oedd gan yr aelodau awgrymiadau pellach yna i gysylltu hefo nhw felly penderfynwyd rhoi'r mater yma ar agenda mis nesaf i drafod y datblygiad o'r sgwrs yma.

6. **Cyflog y Clerc –** caniatad i newid y dull talu – Clerc
   Mae Banc Barclays ym Mhwllheli yn cau mis Tachwedd a dyma lle mae'r clerc yn bancio felly ni fydd modd iddi fynd i mewn i'r banc i dalu siec cyflog Cyngor Tref Nefyn i mewn. Ni fydd modd iddi chwaith dalu'r siec yma i fewn drwy'r 'app' bancio ar ei ffôn oherwydd fod cyfyngiad ar swm y sieciau y gellir eu talu mewn drwy'r 'app' felly mae'r clerc yn gofyn os oes modd newid y ffordd mae CTN yn ei thalu, sef unai drwy ddwy siec sydd wrth gwrs yn mynd i gostio mwy i CTN o ganlyniad i'r ffioedd mae HSBC yn eu codi neu drwy daliad BACS. Dywedodd y clerc os yw'r aelodau yn cytuno iddi ddefnyddio taliad BACS yna y byddai yn printio tystiolaeth o'r taliad ar ôl ei wneud ac yn cael dau i'w arwyddo yn unol â'r drefn arwyddo sieciau.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

Penderfyniad: y clerc i ofyn am arweiniad gan Un Llais ar y mater ac os ydynt yn cynghori fod talu drwy daliad BACS yn dderbyniol yna y clerc i drefnu hynny. Os ddim yna trefnu dwy siec i'r clerc bob mis, mae'r clerc am adael i'r aelodau wybod drwy ebost beth mae Un Llais yn ei gynghori.
Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Arfon Hughes

7. **Cyfrif Bryn Mynach –** Clerc
Mae'r clerc wedi derbyn ebost gan HSBC yn dweud y bydd cyfrif Bryn Mynach yn cael ei gau neu ei rewi os na fydd symudiad i mewn ac allan o'r cyfrif yn rheolaidd. Cysylltodd y clerc hefo HSBC i drafod y mater ac awgrymwyd ganddynt y byddai trosglwyddo £10 allan ac yna nôl i mewn o'r cyfrif unwaith y mis yn ddigonol i gadw'r cyfrif yn agored. Gan na roddwyd llawer o amser i drefnu hyn cysylltodd y clerc gyda Cadeirydd yr Is-bwyllgor Ariannol sydd wedi cytuno iddi wneud hyn mewn egwyddor ond ei fod yn cael ei roi o flaen y pwyllgor llawn nesaf i'r aelodau gael eglurhad o'r sefyllfa.
Pemderfyniad: cytunodd yr aelodau i gyd i'r trosglwyddiad misol yma o £10 allan a mewn o cyfrif Bryn Mynach.
Cynnig: Rhys Llewelyn   Eilio: Janice Evans

8. **Llwybr Pen y Bryn wrth ymyl Ty'n Llan, Edern –** Gito Wiliams
Mae nifer o faterion sydd angen sylw ar y llwybr yma felly mae'r clerc am gysylltu hefo Dewi Wyn Owen i ofyn iddo ddod allan i gyfarfod dau o'r aelodau ar y safle, mae aelod lleol Nefyn am gysylltu hefo Dewi Wyn Owen hefyd.

9. **Arwydd i'r Diffib yn Edern –** Gwynfor Jones & Clerc
Derbyniodd y clerc gais gan un o aelodau Edern am arwydd wrth y ffordd fawr yn dweud lle mae'r Diffib wedi ei leoli. Mae'r clerc wedi cysylltu hefo'r Gwasanaeth Ambiwlans i ofyn os oes arwydd ar gael ac mae cwmni Humphreys Signs yn gwneud rhai dwyieithog iddynt am gost o tua £30 yr un.
Penderfyniad: y clerc i archebu un arwydd gan Humphreys Signs.
Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Arfon Hughes

10. **Dyfynbrisiau i drwsio arwydd Bryn Mynach a rhoi canllaw ychwanegol ar y bont –** Clerc
Mae'r clerc wedi derbyn dau bris am drwsio arwydd Bryn Mynach a rhoi canllaw ychwanegol ar y bont.
Penderfyniad: cytunodd bawb ar amcanbris ac mae'r clerc am adael i'r contractwr wybod. Penderfynwyd hefyd i ofyn i'r contractwr i drwsio canllaw sydd ar llwybr Penrallt Nefyn hefyd.
Cynnig: Rhian Sanson   Eilio: Gwynfor Jones

11. **Traeth Nefyn – Parcio ar y Traeth –** Arfon Hughes
Yn dilyn digwyddiad tua pythefnos yn ôl ar draeth Nefyn lle roedd ceir wedi parcio ymhobman ar y traeth oherwydd fod y warden i ffwrdd y diwrnod hwnnw mae un o'r aelodau wedi gofyn am arwydd yn dweud 'Dim Parcio' yno. Gofynnodd un o'r aelodau hefyd am arwydd 'Dim Cwn' yno gan fod pobol yn mynd a cwn yno yn yr haf pan maent wedi eu gwahardd i fod. Hefyd mae bin baw ci sydd wrth ymyl 'Marine Cottage' yn orlawn drwy'r amser ac yn dennu pryfaid ac yn ogleuo yn ofnadwy. Dywedodd y clerc fod CTN wedi gosod arwydd 'Dim Parcio' i lawr wrth y traeth tua dwy flynedd yn ôl ond nid oes son amdano erbyn hyn felly fe fydd rhaid archebu un arall gan Designer Signs. Yr un amser hefyd penderfynnodd CTN roi arwydd 'Dim Cwn' ar y traeth ond ar ôl derbyn ebost gan yr adran forwrol yn ein cynghori ni i beidio ni archebwyd yr arwydd yma.

Penderfyniad: y clerc i archebu un arwydd 'Dim Parcio' gan Designer Signs ac hefyd rhoi cwyn i fewn i Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r bin baw ci a gofyn iddynt ei wagio yn fwy aml. Penderfynwyd gofyn i un o weithwyr CTN i osod yr arwydd ac mae un o'r aelodau am ei gyfarfod i lawr yn y traeth i benderfynnu ar ei leoliad.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts

**12. Llyfrgell Nefyn:**

1. **Trwsio cyfyr y fent**
2. **Torri'r eithin y tu allan i'r drws tân**
3. **Llechi wedi disgyn oddi ar y to**

Mae'r clerc wedi cael ebost gan Llyfrgell Nefyn am y materion uchod yn gofyn iddynt gael eu trwsio a'u torri.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo contractwr lleol i ofyn wrtho drwsio cyfyr y fent a rhoi'r llechi yn ôl ar y to, a gofyn i weithiwr CTN sy'n arfer torri'r eithin y tu allan i'r drws tân i fynd yno i'w dorri eto.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Rhys Llewelyn

**13. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Cais am gyfraniad ariannol –** Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen

Derbyniwyd ebost gan Clwb Ffermwyr Ifanc Porthdinllaen yn gofyn am gymorth ariannol ar ddechrau tymor newydd.
Penderfyniad: Cytunodd yr aelodau i rhoi cyfraniad ariannol mewn egwyddor ond y clerc i ofyn am gopi o'r fantolen ariannol yn gyntaf er mwyn penderfynnu faint i'w gyfrannu. Yr Is-bwyllgor i benderfynnu ar y swm pan maent yn cyfarfod dechrau mis nesaf i drafod y gyllideb.

- **Ebost David Entwistle –** Rhandiroedd

Derbyniwyd ebost gan David Entwistle yn gofyn os oedd unrhyw ddatblygiad ar y rhandiroedd yn Nefyn ac os nad oes yna a fyddai'n bosibl iddo fo hadu blodau gwyllt yno.
Penderfyniad: rhoi caniatad iddo fo hadu blodau gwyllt yno a'r clerc i gysylltu hefo'r contractwr i ofyn wrtho os yw'r ddwy draen wedi cael ei rhoi yn ei le. Penderfynwyd rhoi'r mater ar agenda mis nesaf i gael diweddariad.
Ymhellach i ebost gan yr AHNE ynglŷn â Plannu Coed Cynhenid mae'r aelodau am anfon ebost i'r clerc hefo enwau lleiniau ar gyfer plannu'r coed.

**14. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

Ceisiadau Diweddarach
Dim.

**15. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1301.24
- Nefyn Foods Ltd – Rent Siop Siarad - £780.00
- Gwasanaeth Coed Llŷn – torri brigau y goeden sydd y tu allan i'r Llyfrgell - £1320.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

- Alan Adams – Taliad 6 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1784.88
- John Gwynfor Jones – angladd Kelvin William Deane - £450.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £22.84
- HMRC – PAYE Mis 5 - £317.31
- D.M.Parry – Taliad cyntaf mynwent Fron a Penniel ac ail daliad mynwent Nefyn - £1295.00
- Clwb Pel-droed Unedig Nefyn – bwrdd hysbysebu tymor 2023-2024 - £80.00
- Npower – trydan Llyfrgell mis Awst - £249.76
- Ffi Diogelu Data - £40.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Rhys Llewelyn    Eilio: Janice Evans

**16. Taliadau wedi eu derbyn**

- Cyngor Gwynedd - Praesept - £43500.00

<u>**Taliadau mis Awst**</u>

Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:

- Cyflog y Clerc - £1301.24
- Taliad y Cadeirydd – Taliad cyntaf - £300.00
- Gareth Williams – gosod un bwrdd gwybodaeth (fi sydd wedi sylwi oddi ar yr anfoneb diwethaf ei fod wedi gadael un bwrdd gwybodaeth allan sef wedi rhoi 5 i lawr yn lle 6) - £204.00
- Bacstal – gwasanaeth cyflogau - £146.40
- John Gwynfor Jones – angladd Iorwen Adams - £500.00
- Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol 2022-2023 - £324.00
- D M Parry – Ail daliad mynwent Edern a trydydd taliad mynwent Morfa Nefyn - £750.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £6.92
- HMRC – PAYE Mis - £242.31
- D R Griffiths - Bunting Steddfod i Stryd Fawr Nefyn - £536.80
- Alan Adams – taliad 5 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1480.00
- Lora Williams – ad-daliad blodau Morfa - £70.89
- Dragon Signs NW Ltd – arwyddion 'Croeso' i'r byrddau gwybodaeth - £468.00
- N Power – trydan Llyfrgell mis Gorffennaf - £248.37
- Tyddyn Sachau – Blodau Morfa – £171.33

Siec sydd wedi mynd allan ar ôl y pwyllgor diwethaf ond wedi cael ei basio drwy ebost:

- Caren Jones – nwyddau harddu i Edern - £197.55

Clerc: Pat Humphreys

Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.

• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651